# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Trefeurig**

**Cylch Meithrin Trefeurig**
**Ysgol Gynradd Penrhyn-coch**
**Penrhyn-coch**
**SY23 3EH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Llun, 7 Ionawr 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cafodd Cylch Meithrin Trefeurig ei gofrestru ym mis Tachwedd 2013 i ddarparu gofal dydd llawn ar gyfer uchafswm o 17 o blant dwy flwydd oed a throsodd. Mae'n gweithredu o gaban annibynnol ar dir Ysgol Trefeurig, Penrhyn-coch. Mae'n gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8:15 am a 6pm, yn ystod y tymor yn unig. Nerys Lockyer yw'r unigolyn cofrestredig a Jacqueline James yw'r person â chyfrifoldeb. Darperir y gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn egnïol ac yn ymgysylltu â'u chwarae yn y cylch hwn. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau maent yn eu gwneud, megis chwarae yn yr awyr agored, gwneud marciau a chwarae rôl ac maent yn dysgu i drin ei gilydd yn garedig. Mae'r staff yn trin y plant yn hoffus. Fodd bynnag, mae problemau gyda'r amgylchedd ac arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth.

### 2. Gwelliannau

Yn dilyn yr arolygiad, cawsom ddatganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru. Fodd bynnag, roedd angen diwygio hyn ymhellach. Cadarnhaodd y person â chyfrifoldeb fanylion gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd aelod o'r staff a chadarnhaodd bod holl ffeiliau'r staff yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliad.
Cadarnhaodd hefyd fod y gwasanaeth wedi gweithredu ar y canlynol:

- mae syniadau'r plant bellach yn cael eu harddangos gan ddefnyddio map meddwl ac maent wedi'u cynnwys yn y gwaith cynllunio wythnosol o weithgareddau;
- mae'r staff yn sicrhau eu bod nhw'n golchi eu dwylo, ynghyd â'r holl blant, cyn bwyd;
- mae'r staff yn rhoi dyddiad ar holl waith y plant;
- mae'r staff yn sicrhau bod y giât diogelwch wrth fynedfa'r gegin yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y sesiwn lawn;
- mae pecyn cymorth cyntaf newydd wedi cael ei brynu;
- mae'r holl ddroriau wedi cael eu labelu â chliw gweledol i ddangos beth sydd ynddynt;
- mae clo ar y giât sy'n arwain at ddrws ochr y caban;
- mae rhiant/gofalwr yn llofnodi pan fydd y plant sy'n mynychu ar ôl ysgol yn gadael;
- mae pob ffurflen caniatâd ar gyfer y plant yn eu lle;
- mae'r holl staff wedi cael eu cofrestru ar gyrsiau hyfforddi cymorth cyntaf ac amddiffyn plant ar gyfer mis Mawrth 2019;
- mae'r arweinydd wedi dod o hyd i'w chofnodion goruchwylio ac arfarnu.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom hysbysu'r darparwr am y diffyg cydymffurfio canlynol a bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r canlynol: Y Datganiad o Ddiben am nad oedd yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliad a'r safonau gofynnol cenedlaethol; Cyflogi Staff: am nad oedd pob aelod o'r staff wedi cael sesiynau goruchwylio nac arfarniadau; Addasrwydd y Safle; mae hyn oherwydd aethom i mewn i'r caban drwy ddrws nad oedd ar glo ar ddiwrnod yr ymweliad a Darparu Gwybodaeth; nid yw AGC wedi cael gwybod am newidiadau o ran staff.

Gwnaethom argymhellion mewn perthynas â'r pedair thema. Caiff y rhain eu rhestru'n fanylach yng nghefn yr adroddiad.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae'r plant yng Nghylch Meithrin Trefeurig yn hapus ac yn mwynhau eu chwarae. Mae ganddynt ddewis ac maent yn hyderus wrth gyfathrebu eu hoff bethau a'u cas bethau. Mae'r plant yn dechrau rhyngweithio'n gadarnhaol gyda chymorth gan y staff.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae gan y plant yng Nghylch Meithrin Trefeurig ddewis, maent yn cyfathrebu â'i gilydd a'r oedolion sy'n gofalu amdanynt ac mae'r oedolion hynny'n gwrando arnynt.

Yn ystod chwarae rhydd, ysgogodd y rhan fwyaf o'r plant eu chwarae eu hunain gyda rhai yn chwarae yn yr ardal chwarae rôl tra bod eraill yn dewis chwarae gydag anifeiliaid plastig neu wneud marciau drwy ddefnyddio dŵr a brwsh paent. Roedd gan y plant ddewis o baent lliw a gwelsom y plant yn helpu eu hunain i'r adnoddau awyr agored yn ystod sesiwn y prynhawn. Wrth chwarae yn yr awyr agored, nododd y plant yn glir pa symudiad roeddent am ei wneud pan ofynnodd y staff iddynt. Hefyd, dewisodd y plant pa degan roeddent am chwarae ag ef. Yn ystod amser byrbryd, dywedodd y plant pan roeddent wedi cael digon i'w fwyta a gwnaethant ddewis beth roeddent am ei yfed. Yn ystod y sesiwn ar ôl ysgol, nododd un plentyn yn hyderus ei fod am fwyta tost.

Mae gan y plant lais gweithredol yn y gwasanaeth hwn.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac wedi ymlacio. Mae gan y plant gydberthynas gynnes â'r staff sy'n gofalu amdanynt ac maent yn cyfathrebu â nhw yn hyderus.

Roedd hi'n ymddangos bod y plant wedi setlo, ac roeddent yn chwarae gyda'r adnoddau a oedd wedi'u gosod allan ac yn symud o amgylch y brif ystafell yn hunangyfarwyddo eu chwarae eu hunain. Roedd y plant yn mwynhau eistedd gyda'r staff yn ystod gweithgareddau a chafodd rhai sylw un i un pan roeddent eisiau hynny, er enghraifft, ar ôl ysgol, roedd un plentyn am gael cwtsh ar y soffa wrth wylio'r teledu. Roedd y plant yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac yn gwybod pryd roedd hi'n amser mynd i'r awyr agored i chwarae oherwydd gwnaethant sefyll mewn llinell wrth y drws yn barod i fynd i'r ardal awyr agored. Ymatebodd y plant gyda gwên pan gawsant eu canmol am eu gwaith. Dywedodd y plant wrthynt yn hyderus pam eu bod wedi cael sticeri a'u bod yn mwynhau eu hamser yn y cylch, "I am hapus."

Mae'r plant yn teimlo'n hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dechrau deall eu teimladau. Maent yn dysgu i gymryd eu tro, rhannu a chydweithredu.

Gwelsom y plant yn chwarae gyda'i gilydd yn hapus yn ogystal â chwarae'n annibynnol. Ar ôl cinio, safodd y plant mewn llinell i baratoi i fynd i'r ardal awyr agored. Roedd y plant yn gwenu ac yn sgwrsio â'i gilydd. Arhosodd y plant eu tro yn amyneddgar yn ystod amser cylch wrth i bob un ohonynt fynd i gasglu eu henwau yn eu tro. Yn ystod y sesiwn awyr agored, roedd y plant am chwarae gyda'r un tegan a gwelsom un plentyn yn caniatáu i'r plentyn arall gael y tegan. Sgwrsiodd y plant â'i gilydd yn hapus yn ystod chwarae rhydd ac yn ystod amser byrbryd. Dan do, tra bod y plant yn gwneud marciau ar y bwrdd îsl gan ddefnyddio brwsh paent a dŵr, clywsom un plentyn yn gofyn i blentyn arall, “Can I play?” ac atebodd y plentyn “Go and get a brush then.”  Gwelsom y plant yn gwenu ar ei gilydd wrth iddynt chwarae gyda'r brwsys paent a'r dŵr. Ymatebodd y plant i'r aelodau o'r staff pan ddywedwyd wrthynt am fod yn ofalus wrth iddynt chwarae yn yr awyr agored ar y cyfarpar dringo.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'r staff.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn ymgysylltu â'u chwarae.

Gwelsom y plant yn archwilio'r adnoddau a oedd ar gael iddynt yn rhydd. Roedd y plant yn mwynhau'r sesiwn chwarae rhydd ac roeddent yn awyddus i fynd i'r ardal chwarae rôl yn ogystal â defnyddio'r îsl paentio. Gwelsom y plant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd gydag oedolyn, a oedd yn cynnwys trafod teimladau amrywiol a gwisgo mygydau wyneb a oedd yn cynrychioli teimladau gwahanol. Roeddent yn canolbwyntio drwy gydol y sesiwn fer ac roeddent yn falch o ddangos eu mygydau i ni. Hefyd, gwelsom y plant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd paentio yn y sesiwn ar ôl ysgol. Yn ystod sesiwn y prynhawn, gwelsom y plant yn dangos brwdfrydedd wrth iddynt chwarae gyda'r teganau yn yr awyr agored.

Yn gyffredinol, mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae llawer o'r plant yn hyderus ac yn gallu gwneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn dechrau datblygu annibyniaeth ac maent yn dysgu rhai sgiliau drwy chwarae.

Gwelsom rai o'r plant yn dod yn annibynnol drwy anogaeth ysgafn a chymorth gan eu gofalwyr. Defnyddiodd y plant lwy yn annibynnol i helpu eu hunain i ffrwythau wedi'u torri o

fowlenni a gwnaethant yfed o gwpanau yn ystod amser byrbryd. Cliriodd rhai o'r plant eu platiau yn y bin ailgylchu bwyd ar ôl gorffen eu byrbryd. Defnyddiodd rhai o'r plant y toiledau yn annibynnol a gwnaethant olchi eu dwylo gyda chymorth gan y staff. Gwelsom un plentyn yn mynd i nôl y siswrn yn annibynnol ac eisteddodd ar y llawr yn torri darnau o bapur, heb unrhyw ymyrraeth gan y staff. Ymatebodd y plant yn dda yn ystod amser carped, a oedd yn cynnwys edrych ar gardiau fflach amrywiol yn ogystal â thrafod y tywydd a gwelsom y plant yn dangos brwdfrydedd i ateb cwestiynau. Dangosodd rhai o'r plant hyder wrth iddynt adnabod eu henwau yn ystod y sesiwn carped. Yn ystod ein hymweliad, roedd y plant yn cymryd rhan mewn chwarae rhydd yn bennaf ac roeddent yn ymddwyn yn dda iawn yn y gwasanaeth.

Gall y plant ddatblygu eu hannibyniaeth i raddau. Fodd bynnag, ni chaiff annibyniaeth a dysgu'r plant eu cefnogi'n llawn bob amser.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn darparu amrywiaeth sylfaenol o weithgareddau i'r plant. Maent yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o'r plant am eu bod yn eu hadnabod yn dda ac yn frwdfrydig yn ystod y drefn bob dydd. Er bod y staff yn rheoli rhyngweithio'r plant yn gadarnhaol mewn modd caredig a magwrus, ac yn cadw'r plant yn ddiogel ar y cyfan, mae gwelliannau i'w gwneud yn y maes hwn.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Ar y cyfan, mae'r ymarferwyr yn hybu iechyd a llesiant y plant. Fodd bynnag, mae rhai meysydd i'w gwella i gadw'r plant yn iachach ac yn fwy diogel.

Yn ystod prynhawn ein hymweliad, cynigiwyd detholiad o ffrwythau a chacen i'r plant yn y cylch, ynghyd â dewis o laeth neu ddŵr i'w yfed. Fodd bynnag, cynigwyd cacen neu pizza i'r plant yn y sesiwn ar ôl ysgol. Gwelsom rai arferion hylendid da megis y staff yn sychu'r byrddau ac yn annog y plant i olchi eu dwylo. Fodd bynnag, nid oedd golchi dwylo yn cael ei hybu bob amser. Ni chlywsom y staff yn atgoffa'r plant yn y sesiwn ar ôl ysgol i olchi eu dwylo cyn iddynt gael eu byrbryd. Golchodd yr aelod o'r staff a oedd yn gyfrifol am baratoi a gweini'r byrbryd eu dwylo cyn paratoi'r byrbryd a gwisgo ffedog wrth baratoi'r byrbryd. Roedd y staff yn annog ffyrdd iach o fyw, drwy sicrhau bod y plant yn cael sesiwn symud y corff yn ystod y prynhawn a threuliodd y rhan fwyaf o'r plant yn y sesiwn ar ôl ysgol eu hamser yn yr awyr agored.
Ar ôl cyrraedd y gwasanaeth, roedd tri aelod o'r staff yn bresennol, ac roedd dau o'r rhain yn staff wrth gefn. Nid oedd dim un o'r aelodau wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Cyrhaeddodd y person â chyfrifoldeb yn hwyrach ac roedd hi wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. O ganlyniad, nid oedd nifer ddigonol o staff a oedd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf bob amser i gyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol. Er enghraifft, un oedolyn hyfforddedig i bob 10 plentyn. Dywedwyd wrthym ar ôl yr ymweliad y byddai pob aelod o'r staff yn cwblhau cwrs cymorth cyntaf. Yn ystod yr ymweliad, gwnaethom drafod senarios amddiffyn plant â'r staff ac ymatebodd y rhan fwyaf yn briodol. Gwelsom nad oedd un aelod o'r staff wrth gefn yn hyderus ynghylch y weithdrefn i'w dilyn os oedd ganddi bryderon am blentyn neu os oedd honiad yn cael ei wneud yn erbyn yr arweinydd, am nad oedd wedi cael unrhyw hyfforddiant na chael gwybod am y weithdrefn. Gwelsom gofnodion damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth wedi'u cwblhau a oedd wedi cael eu llofnodi gan y rhieni. Fodd bynnag, nid oedd yr arweinydd wedi llofnodi pob cofnod. Edrychom ar y pecyn cymorth cyntaf a gwelsom fod eitemau yn y pecyn wedi dod i ben. Cadarnhaodd yr arweinydd fod pecyn cymorth cyntaf newydd wedi cael ei brynu ar ôl yr ymweliad. Roedd y staff yn gwisgo menig a ffedog i newid cewynnau'r plant a gwelsom ddau achos lle na ddilynwyd y weithdrefn yn y polisi newid cewynnau yn gywir. Cadwodd y staff y menig

ymlaen ar ôl newid cewyn wedi baeddu i ailwisgo'r plentyn a mynd â'r cewyn i'r bin yn yr awyr agored.

Mae'r staff yn anghyson o ran cadw'r plant yn iach ac yn ddiogel.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn gweithredu mewn ffordd gyson wrth reoli rhyngweithio. Maent yn gosod ffiniau clir i'r plant ac yn rheoli eu rhyngweithio mewn ffordd sy'n ddatblygiadol addas.

Gwelsom y staff yn canmol y plant yn rheolaidd. Rhoddodd y staff ganmoliaeth benodol ar lafar er mwyn i'r plant wybod yn glir beth roeddent wedi'i wneud yn dda, a gwnaethant hefyd roi sticeri fel gwobrau. Clywsom aelod o'r staff yn dweud “Well done for going to the toilet” i blentyn a rhoi sticer iddo. Pan roddwyd sticer i blentyn, roedd y gallu dweud wrthym ei bod wedi ei gael am fynd i'r toiled. Roedd y staff yn rheoli eu rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes a gofalgar, a rhoi sylw agos i'r anghenion, eu hoff bethau a'u cas bethau. Roedd y staff yn y gwasanaeth yn fodelau rôl da i'r plant ac roeddent yn gweithredu mewn ffordd amyneddgar, dyner a thawel.

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio yn effeithiol.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Nid yw'r staff bob amser yn sicrhau bod gwaith cynllunio effeithiol ar waith i hybu datblygiad y plant ac o ganlyniad nid yw eu hanghenion datblygu yn cael eu diwallu bob tro.

Roedd y staff yn rhoi rhai o egwyddorion y cyfnod sylfaen ar waith. Ni welsom unrhyw waith cynllunio gweithgareddau penodol. Prin oedd y dystiolaeth yn y brif ystafell o unrhyw waith cynllunio cyfredol na gweithredu gwaith cynllunio a oedd yn gysylltiedig ag arddangosfeydd â thema, gorsafoedd gwaith a dysgu achlysurol. Edrychom ar ffeiliau datblygu'r staff, a oedd yn cynnwys arsylwadau yn rhoi manylion am yr hyn roedd y plentyn wedi'i gyflawni ynghyd â'r dyddiad. Roedd hefyd enghreifftiau o waith yn y ffeil. Fodd bynnag nid oedd y rhain wedi'u dyddio. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom aelod o'r staff yn arwain gweithgaredd am deimladau. Treuliwyd y rhan fwyaf o sesiwn y prynhawn yn yr awyr agored, gyda'r plant yn cymryd rhan mewn chwarae rhydd. Ni welwyd unrhyw dasgau eraill â ffocws yn ystod yr ymweliad. Roedd y staff yn annog y plant i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a gwnaethant ganu caneuon yn ystod ‘amser carped’ a sgwrsio yn Gymraeg drwy gydol y sesiwn. Yn ystod amser byrbryd, gwnaeth y staff annog y plant i fod yn annibynnol i ryw raddau. Fodd bynnag, collwyd cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth ymhellach. Darparodd y staff fowlenni o ffrwythau wedi'u torri a llwy i'r plant i helpu eu hunain. Arllwysodd aelod o'r staff y dŵr a'r llaeth i'r plant. Rhoddodd y staff bopeth i'r plant ac er y dywedwyd wrthym fod ‘cynorthwyydd y dydd’ ar waith yn y cylch, ni chafodd hyn ei hybu yn

ystod yr ymweliad. Casglodd y staff gotiau a bagiau'r plant o'u pegiau ar ddiwedd y dydd a'u rhoi i'r plant. Ni welsom y staff yn annog y plant i wisgo eu cotiau yn annibynnol. Roedd y staff yn ymateb i anghenion y plant ar adegau, er enghraifft gwelsom aelod o'r staff yn ymateb yn brydlon i blentyn yr oedd angen newid ei gewyn.

Nid yw'r staff yn diwallu anghenion unigol y plant yn gyson ac maent yn colli cyfleoedd i hybu datblygiad y plant.

## 3. Yr amgylchedd

**Crynodeb**

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth sylfaenol o adnoddau i'r plant y gallant gael gafael arnynt yn annibynnol. Mae'r amgylchedd yn gynnes a chroesawgar. Fodd bynnag, mae angen rhoi sylw i rai agweddau ar ddiogelwch yr amgylchedd.

**Ein canfyddiadau**

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn defnyddio systemau sylfaenol er mwyn cadw'r amgylchedd yn ddiogel. Mae angen gwelliannau er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn gwbl ddiogel.

Nid oedd yr arweinwyr yn amddiffyn y plant rhag mynediad diawdurdod i'r cylch oherwydd nodwyd nad oedd y drws i'r gwasanaeth dan glo. Ar ôl cyrraedd y gwasanaeth, aethom i mewn i'r safle drwy giât ar ochr y caban a oedd yn arwain at ddrws ochr heb ei gloi. Ni ofynnwyd i ni pwy oeddem. Gwnaeth y staff barhau i weini cinio i'r plant a ni ofynnwyd i ni fewngofnodi. Cadarnhaodd yr arweinydd fod clo wedi cael ei roi ar y giât ochr yn dilyn yr ymweliad. Roedd yr asesiadau risg wedi cael eu hadolygu ym mis Mawrth 2017. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw asesiad risg ar waith ar gyfer pob ardal. Roedd y staff yn cadw hwyaid yn yr ardal awyr agored ac roedd y plant yn cael cyswllt â'r hwyaid wrth iddynt eu bwydo. Nid oedd unrhyw asesiad risg ar gyfer hyn. Roedd y person â chyfrifoldeb wedi cofnodi un ymarfer tân ar y gofrestr. Fodd bynnag, roedd hyn ond yn nodi'r dyddiad ac nid nifer y plant a'r staff. Dyddiad yr ymarfer tân oedd 10 Medi 2018. Dywedodd yr arweinydd wrthym fod y gwasanaeth yn cynnal ymarferion tân gyda'r ysgol. Roedd pob darn o gyfarpar trydanol wedi cael prawf diogelwch. Glanhaodd y staff yr ystafell yn ôl yr angen yn ystod y sesiwn, er enghraifft ar ôl amser byrbryd. Dywedodd yr arweinydd wrthym fod glanhawyr yr ysgol yn glanhau'r caban bob dydd. Roedd yr ardal awyr agored ar ochr chwith y caban yn anniben ac yn anhrefnus gyda gormod o deganau, cyfarpar ac adnoddau wedi'u gwasgaru'n rhydd drwy'r ardal. Nid oedd gorchudd ar y pwll tywod yn yr ardal hon. Fodd bynnag, roedd y staff wedi rhoi bwrdd wrth y fynedfa er mwyn atal y plant rhag mynd ato yn rhydd yn ystod chwarae awyr agored. Roedd y staff yn newid cewynnau yn yr ystafell storio a gwelsom ddau fwced yn llawn dŵr budr a mopiau yn cael eu storio ar y llawr wrth y drws. Roedd giât diogelwch wrth fynedfa ardal y gegin. Fodd bynnag, ni ddefnyddiwyd y giât yn ystod yr ymweliad. Gwelsom blentyn yn mynd i'r gegin yn annibynnol yn ystod yr ymweliad.

Nid yw'r arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd yn llawn.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r amgylchedd dan do yn groesawgar ac yn addas i blant ac mae gwaith y plant yn cael ei arddangos ar y waliau.

Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod y gwasanaeth wedi'i ddodrefnu'n dda iawn, gyda dodrefn o faint sy'n addas i blant a oedd yn galluogi'r plant i gyrraedd teganau a chyfarpar a chyflawni tasgau yn annibynnol. Roedd yn hawdd i'r plant gyrraedd y rhan fwyaf o'r adnoddau mewn droriau ac unedau ar lefel isel. Fodd bynnag, nid oedd pob drôr wedi'i labelu â chliw gweledol i ddangos beth oedd ynddo. Roedd yr ystafell wedi'i threfnu yn ardaloedd â themâu clir, er enghraifft, cornel ddarllen, ardal cyfrifiaduron, ardal chwarae rôl ac ardal crefftau. Fodd bynnag, nid oedd llawer o adnoddau ac nid oedd yr ardaloedd wedi cael eu haddurno. Nid oedd yr ardal chwarae rôl wedi'i datblygu i fod yn ardal benodol, er enghraifft siop neu gornel gartref. Dim ond un llyfr darllen oedd ar gael i'r plant yn yr ardal ddarllen. Nid oedd y cyfrifiaduron ymlaen ac o ganlyniad i hynny ni allai'r plant ddefnyddio'r rhain. Roedd yr ardal crefftau yn cynnwys îsl. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw baent na phapur ar gael i'r plant. Roedd rhai enghreifftiau o waith celf a chrefft y plant wedi'u harddangos, gan gynnwys tân gwyllt a lluniau o'r plant. Roedd yr ystafell yn lân ac yn gyfforddus. Roedd yr amgylchedd awyr agored yn gaeedig ac roedd yn rhan annatod o'r amgylchedd dysgu. Roedd cegin fwd a llwyfan perfformio yn yr awyr agored. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw adnoddau yno i wella'r chwarae. Roedd sied storio ar waith a dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym fod adnoddau ar gyfer y plant hŷn yn cael eu storio yno. Fodd bynnag ni welsom fod y rhain ar gael i'r plant hŷn yn y sesiwn ar ôl ysgol. Gwelsom fod teganau ac adnoddau yn cael eu gadael allan ym mhob tywydd ac roedd traul cyffredinol yn amlwg ar sawl un o'r eitemau, er enghraifft y teganau.

Nid yw'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd awyr agored yn hollol addas.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r plant yn cael budd o adnoddau, cyfarpar a theganau sy'n addas ar gyfer anghenion ac oedran y plant.

Roedd yr arweinwyr wedi darparu amrywiaeth sylfaenol o adnoddau chwarae a oedd yn addas ar gyfer oedran y plant a oedd yn cael gofal yn y cylch. Fodd bynnag, ni welsom amrywiaeth eang o adnoddau a oedd yn addas ar gyfer yr ystod oedran hŷn yn y sesiwn ar ôl ysgol. Er enghraifft, dan do roeddent wedi darparu adnoddau chwarae rôl i'r plant, gan gynnwys til chwarae a pheth dillad gwisgo i fyny, doli, anifeiliaid plastig, brwsys paent, toes chwarae, paent a jig-so. Yn yr ardal awyr agored, roeddent wedi darparu adnoddau chwarae dŵr, cegin fwd, bwrdd gwyn ar gyfer gwneud marciau, beiciau ac adnoddau plastig amrywiol i'r plant gan gynnwys teganau. Darparodd yr arweinwyr nifer ddigonol o fyrddau a chadeiriau a oedd yn addas ar gyfer y plant, yn ogystal â chwpanau a phlatiau addas. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod ardal y toiled yn addas ac yn cynnwys toiledau a sinciau lefel isel ynghyd ag ardal newid cewynnau gaeedig benodol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd da.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae angen gwella arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth ac mae diffyg gwerthuso a chynllunio. Nid yw peth o'r gwaith papur hanfodol ar gael neu nid yw wedi'i gwblhau'n llawn.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Nid yw'r arweinwyr yn cydymffurfio â holl reoliadau AGC.

Nid oedd y sefydliad yn cydymffurfio â nifer o reoliadau. Roedd y rhain yn ymwneud â chyflogi staff a sicrhau addasrwydd y staff. Roedd y datganiad o ddiben yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth angenrheidiol. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cynnwys yr holl fanylion sy'n ofynnol yn ôl y rheoliad. Anfonodd yr arweinwyr gopi wedi'i ddiweddaru yn dilyn yr ymweliad. Cawsom fersiwn wedi'i diweddaru. Fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys telerau ac amodau ac o ganlyniad nid oedd yn bodloni'r holl ofynion rheoliadol. Roedd gan yr arweinwyr y rhan fwyaf o'r ddogfennaeth ofynnol ynghylch pob plentyn sy'n mynychu'r gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd anghysondeb mewn perthynas â ffurflenni cydsyniad rhieni. O'r sampl o'r ffeiliau a welwyd, roedd yr arweinwyr wedi cael cydsyniad i roi eli haul ar rai o'r plant ac i dynnu lluniau ohonynt. Yn dilyn yr ymweliad, cadarnhaodd yr arweinydd fod pob cydsyniad cyffredinol ar waith. Nid oedd yr arweinwyr wedi cael cydsyniad gan y rhieni i'r plant gael cyswllt â'r hwyaid. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y rhieni/gofalwyr yn llofnodi wrth iddynt gasglu eu plant o'r cylch meithrin. Fodd bynnag, nid oedd neb yn llofnodi pan roedd y plant yn gadael y clwb ar ôl ysgol. Cadarnhaodd yr arweinydd fod y system hon wedi cael ei rhoi ar waith yn dilyn yr ymweliad. Roedd yr arweinydd wedi methu â hysbysu AGC am newidiadau ynglŷn â chyflogi staff newydd yn y gwasanaeth. Gwnaethom drafod cofnodi damweiniau a digwyddiadau â'r arweinydd, a rhoddodd wybod i ni fod pob damwain yn cael ei chofnodi fel arfer a bod y staff yn ymwybodol o bwysigrwydd hyn. Dywedodd yr arweinydd wrthym fod y gwasanaeth yn rhoi gwybod i'r rhieni am unrhyw ddigwyddiad neu ddamwain pan fyddant yn casglu eu plentyn a'u bod yn cadw mewn cysylltiad â'r rhieni drwy grŵp negeseua a negeseuon testun.

Nid yw arweinyddiaeth drwy gydol y gwasanaeth bob amser yn effeithiol nac yn cydymffurfio ar hyn o bryd.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Roedd yr arweinwyr wedi sefydlu system ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella.

Roedd yr arweinwyr wedi cwblhau'r broses adolygu ansawdd y gofal ac roedd adroddiad yr adolygiad ar gael. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym fod y gwasanaeth wedi casglu adborth y rheini a'r plant mewn holiaduron. Fodd bynnag, ni welsom enghreifftiau o'r rhain na sut roeddent wedi defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd, er enghraifft, ni welsom unrhyw dystiolaeth o gynllunio ar gyfer gwella. Gwelsom fapiau meddwl roedd yr arweinwyr wedi'u creu yn dangos syniadau'r plant. Fodd bynnag, nid oedd y rhain wedi'u harddangos. Cadarnhaodd yr arweinydd yn dilyn yr ymweliad fod syniadau'r plant bellach yn cael eu harddangos ac yn cael eu hystyried wrth gynllunio gweithgareddau yn wythnosol. Dangosodd yr arweinydd geisiadau i ni am grantiau amrywiol er mwyn gwella'r amrywiaeth o adnoddau yn y cylch a'r clwb ar ôl ysgol ymhellach. Dywedodd hefyd y byddai'r grant yn cael ei ddefnyddio i brynu ystod ehangach o adnoddau ar gyfer y plant hyn yn y sesiwn ar ôl ysgol.

Mae trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn ddigonol.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr wedi rhoi cynlluniau wrth gefn ar waith ar gyfer absenoldebau staff. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr wedi sefydlu system o sesiynau goruchwylio staff rheolaidd ac arfarniadau blynyddol.

Er y gwnaeth yr arweinwyr sicrhau bod ffeiliau'r staff ar gael ar adeg yr arolygiad, nid oeddent yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol am bob aelod o'r staff sy'n ofynnol gan reoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol. Roedd gan y person â chyfrifoldeb a'r aelodau o'r staff a oedd yn helpu wiriadau cyfredol a dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Nid oedd unrhyw dystiolaeth yn dangos bod gwiriadau dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gan y staff wrth gefn. Yn dilyn yr ymweliad, cadarnhaodd y person â chyfrifoldeb fod y staff wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Yn dilyn yr ymweliad, cadarnhaodd yr arweinydd fod yr holl wybodaeth bellach ar waith mewn perthynas â ffeiliau'r staff. Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod yr arweinwyr wedi cynnal rhai arfarniadau gyda dau aelod o'r staff. Fodd bynnag nid oedd unrhyw sesiynau goruchwylio rheolaidd ar waith a chadarnhawyd hyn gan y person â chyfrifoldeb. Ni welsom unrhyw gofnodion wedi'u cwblhau yn dangos bod y person â chyfrifoldeb wedi cael ei goruchwylio na chael arfarniad. Dywedodd wrthym ar ddiwrnod yr ymweliad ei bod wedi cael sesiynau goruchwylio un i un ac arfarniadau. Fodd bynnag, ni allai ddod o hyd i'r cofnodion. Yn dilyn yr ymweliad, cadarnhaodd yr arweinydd ei bod wedi dod o hyd i'r cofnodion wedi'u cwblhau. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym fod y pwyllgor wrthi'n casglu'r dogfennau ac yn rhoi systemau ar waith i weithredu sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol. Dangosodd yr arweinwyr fod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol ar waith a gwelwyd y dystysgrif gyfredol yn ystod yr ymweliad. Fodd bynnag, roedd y dystysgrif a oedd wedi'i harddangos wedi dod i ben. Roedd bwrdd arddangos yn dangos aelodau o'r staff a chopïau o dystysgrifau. Fodd bynnag, nid oedd y

staff a arddangoswyd yn gyfredol ac nid y copi mwyaf diweddar o'r dystysgrif gofrestru oedd wedi'i harddangos.

Nid yw'r gwaith o reoli staff yn effeithiol nac yn cydymffurfio.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan yr arweinwyr gydberthnasau gwaith da â'r rhieni ac mae cysylltiadau da â'r ysgol leol hefyd.

Gwnaethom wirio sampl o gofnodion y plant a gwelsom fod y person â chyfrifoldeb wedi sicrhau bod anghenion a dewisiadau'r plant wedi cael eu cofnodi gan y rheini a'u bod wedi cytuno ar gontract. Roedd y rhieni wedi llofnodi i ddangos eu bod wedi cael eu hysbysu pan roedd eu plant wedi cael damwain. Gwnaethom drafod ymgysylltu â'r gymuned â'r person â chyfrifoldeb a nodwyd bod cysylltiadau da wedi cael eu datblygu â'r ysgol leol yn enwedig am fod y gwasanaeth wedi'i leoli mor agos at safle'r ysgol. Gwelsom hefyd fod cydberthnasau da wedi cael eu datblygu rhwng y staff a'r rhieni/gofalwyr a bod gwybodaeth am ddiwrnod y plant yn cael eu rhannu â nhw. Gwnaethom siarad â'r rhieni a'r gofalwyr yn y gwasanaeth a siaradodd yn gadarnhaol iawn am y cylch. Roeddent yn hapus â'r wybodaeth roeddent yn ei chael gan y staff am gynnydd eu plentyn. Dywedodd un rhiant wrthym, “I’m very happy with everything.  I’ve seen development since my child started and staff are keen to share information with me” a nododd rhiant arall, “It’s brilliant. I’m happy with everything.”

Mae'r gwasanaeth wedi datblygu cydberthnasau effeithiol â'r rhieni.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell y canlynol:

- bod y staff yn cofnodi damweiniau yn brydlon ac yn sicrhau bod rhiant/gofalwr ac aelod o'r staff yn llofnodi pob cofnod;
- bod yr holl staff sy'n gofalu am y plant yn gwbl ymwybodol o'r weithdrefn Amddiffyn Plant a bod un aelod o'r staff ar gyfer pob deg plentyn wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf;
- bod y staff yn annog cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth ymhellach;
- bod arferion hylendid yn cael eu datblygu ymhellach, er enghraifft golchi dwylo a thynnu menig untro ar ôl newid cewynnau;
- bod gwaith cynllunio gweithgareddau yn cael ei ddatblygu ymhellach i ddarparu cyswllt cydlynol sydd wedi'i ddiffinio'n glir â chyfleoedd a chanlyniadau dysgu'r plant;
- bod y staff yn darparu byrbrydau iach i'r holl blant sy'n mynychu;
- bod gwaith y plant wedi'i ddyddio yn y ffeiliau datblygu;
- bod y staff yn datblygu ac yn gwella'r ardaloedd chwarae a dysgu ymhellach;
- bod asesiadau risg yn cael eu datblygu ar gyfer pob ardal a gweithgaredd;
- bod y staff yn sicrhau bod mopiau a bwcedi yn cael eu cadw mewn lle diogel allan o gyrraedd y plant;
- bod cofnodion ymarferion tân yn cael eu datblygu ymhellach i gynnwys nifer y plant a'r staff sy'n bresennol;
- bod y droriau adnoddau yn cael eu labelu â chliw gweledol i ddangos beth sydd ynddynt;
- bod rhiant/gofalwr yn llofnodi pan fydd pob plentyn yn gadael.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd yn gynt ar ôl cael pryder ynghylch cofnodi damweiniau.

- Ymwelodd dau arolygydd â'r gwasanaeth am 4.5 awr ar 13 Tachwedd 2018. Rhoddwyd adborth dros y ffôn i'r person â chyfrifoldeb ar 15 Tachwedd 2018;
- gwnaethom archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau gan gynnwys ffeiliau'r staff, ffeiliau'r plant, polisïau, cofnodion hyfforddi, cofnodion damweiniau a chofnodion cynllunio;
- gwnaethom arsylwi ar ymarfer yn ystod yr ymweliad arolygu;
- gwnaethom siarad â'r person â chyfrifoldeb, y plant, y rhieni/gofalwyr a'r staff.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Nerys Lockyer** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Jacqueline James** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **19** |
| **Ystod oedran y plant** | **2-12 oed** |
| **Oriau agor** | **8:15am i 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod y tymor yn unig** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **22 Mai 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **13 Tachwedd 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy. Fodd bynnag mae rhai o'r plant sy'n mynychu yn cael eu hariannu gan Dechrau'n Deg** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

Ni chafwyd unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio mewn statws Agored.